***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 767

# Gorchymyn Network Rail (Pont Briwet) (Caffael Tir) 2013

## RHAN 1

RHAGARWEINIOL

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Network Rail (Pont Briwet) (Caffael Tir) 2013 ac mae'n dod i rym ar 16 Ebrill 2013.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

mae “adeilad” (“*building*”) yn cynnwys unrhyw strwythur neu adeiledd, neu unrhyw ran o adeilad, strwythur neu adeiledd;

mae “cyfeiriad” (“*address*”) yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion trosglwyddiad electronig;

ystyr “y cyfeirlyfr” (“*the book of reference*”) yw'r cyfeirlyfr a ardystiwyd gan Weinidogion Cymru fel y cyfeirlyfr at ddibenion y Gorchymyn hwn;

mae “cynnal a chadw” (“*maintain*”, “*maintenance*”) yn cynnwys archwilio, cynnal a chadw, trwsio, addasu, newid, symud, ailadeiladu ac amnewid;

ystyr “Deddf 1961” (“*the 1961 Act*”) yw Deddf Digolledu Tir 1961(**1**);

ystyr “Deddf 1965” (“*the 1965 Act*”) yw Deddf Prynu Gorfodol 1965(**2**);

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**3**);

ystyr “Deddf 1991” (“*the 1991 Act*”) yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**4**);

ystyr “gweithfeydd awdurdodedig” (“*authorised works*”) yw'r gweithfeydd a awdurdodir gan Ddeddf Rheilffordd Aberystwyth ac Arfordir Cymru (Cyffredinol) 1865(**5**) ar gyfer ailadeiladu rheilffordd a phont a'r ffyrdd tuag atynt ym Mhont Briwet;

ystyr “Network Rail” (“*Network Rail*”) yw Network Rail Infrastructure Limited (Rhif Cwmni 02904587) sydd â'i swyddfa gofrestredig yn Kings Place, 90 York Way, Llundain N1 9AG;

mae i “perchennog”, mewn perthynas â thir, yr un ystyr ag a roddir i “owner” yn Neddf Caffael Tir 1981(**6**);

ystyr “plan y tir” (“*land plan*”) yw'r plan a ardystiwyd gan Weinidogion Cymru fel plan y tir at ddibenion y Gorchymyn hwn;

---

(**1**) 1961 p. 33.
(**2**) 1965 p. 56.
(**3**) 1990 p. 8.
(**4**) 1991 p. 22.
(**5**) 1865 p.cclxxxiii.
(**6**) 1981 p. 67.

ystyr "tir y Gorchymyn" ("*the Order land*") yw'r tir a ddangosir ag ymyl coch ac wedi ei liwio'n binc neu las ar blan y tir;

ystyr "y tribiwnlys" ("*the tribunal*") yw'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd);

"trosglwyddiad electronig" ("*electronic transmission*") yw cyfathrebiad a drosglwyddir—

(a) drwy rwydwaith gyfathrebu electronig; neu

(b) drwy ddull arall ond tra bo ar ffurf electronig;

ystyr "yr ymgymeriad" ("*the undertaking*") yw ymgymeriad rheilffordd Network Rail fel y mae'n bodoli o bryd i'w gilydd.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at hawliau dros dir yn cynnwys cyfeiriadau at hawliau i wneud, neu i osod a chynnal a chadw, unrhyw beth yn y tir, arno neu odano, neu yn y gofod awyr sydd uwchben ei arwynebedd.